**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 12 Mehefin 2013**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghr. Richard Davies a Peter Owen |
| **2** | PENODI CADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cyng. Cefyn Williams yn gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.* |
| **3** | PENODI IS-GADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cyng. Stuart Davies is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.* |
| **4** | DATGAN CYSYLLTIAD | Dim. |
| **5** | MATERION BRYS Y CADEIRYDD | Dim. |
| **6** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2013.* |
| **7** | GWEITHDREFNAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER PENDERFYNU AR GEISIADAU AC ADOLYGIADAU CERBYDAU HACNI A GYRWYR HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo trefniadau'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer penderfynu ar geisiadau ac adolygiadau cerbydau hacni a gyrwyr hurio preifat (fel y nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm wrth yr adroddiad).* |
| **8** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU | ***PENDERFYNWYD*** *gwrthod cais rhif 047324 am drwydded i yrru cerbyd hacni a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047324 | *cherbydau hurio preifat.* |
| **9** | ADDASRWYDD CERBYD AR GYFER TRWYDDED HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cais Trwydded Hurio Preifat ar gyfer y cerbyd dan sylw a'r seddi fel y maen nhw.* |
| **10** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047331 | ***PENDERFYNWYD** gwrthod cais rhif 047331 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat.* |
| **11** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT - RHIF 047319 | ***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cais rhif 047319 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat.* |
| **12** | ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 044473 | ***PENDERFYNWYD** –*<br><br>*(a) ystyried addasrwydd Gyrrwr Rhif 044473 i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn ystod y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i'r gyrrwr fynychu'r cyfarfod nesaf i gyflwyno ei achos, ac*<br><br>*(b) anfon llythyr at Yrrwr Rhif 044473 yn rhoi gwybod iddo am y penderfyniad uchod, a gofyn iddo fynychu'r cyfarfod nesaf a phwysleisio difrifoldeb y mater hwn.* |
| **13** | GWEITHDREFNAU AR GYFER POLISÏAU NEWYDD A DIWYGIEDIG | ***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r gweithdrefnau ar gyfer llunio polisïau trwyddedu newydd ac adolygu polisïau cyfredol (fel y nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm wrth yr adroddiad).* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 12 Mehefin 2013**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **14** | GWEITHDREFNAU TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** –<br><br>*(a) cymeradwyo'r 8 gweithdrefn cerbydau hacni a hurio preifat (fel y nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm wrth yr adroddiad) a'u gweithredu o 1 Awst 2013, a*<br><br>*(b) chymeradwyo'r dirprwyon, fel y nodir yn y gweithdrefnau, i ffurfio rhan o'r cynllun dirprwyo o 1 Awst 2013.* |
| **15** | RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *nodi cynnwys rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.* |